

CYNGOR SIR Y FFLINT
23 GORFFENNAF 2019

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Mawrth, 23 Gorffennaf 2019.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Mike Allport, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Ron Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Joe Johnson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Billy Mullin, Mike Peers, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Martin White, Andy Williams, David Williams a David Wisinger

YMDDIHEURIADAU:

Y Cyngorwyr: Bernie Attridge, Sian Braun, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Andrew Holgate, Dennis Hutchinson, Rita Johnson, Hilary McGuill, Ted Palmer, Michelle Perfect, Mike Reece, Owen Thomas ac Arnold Woolley

HEFYD YN BRESENNOL:

Y Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Gwasanaethau Strategaeth; Arweinydd Tîm y Strategaeth Gynllunio; Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd; a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

27. COFNODION

Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 18 Mehefin 2019, yn amodol ar ddiwygiad i gofnod rhif 20 (Hysbysiad am gynnig i gyfyngu ar gynnydd i Dreth y Cyngor). Eglurodd y Cyngorydd Carver mai ei awgrym oedd galluogi i benderfyniad gael ei wneud, a allai gael ei ddiwygio yn nes ymlaen pe bai angen, gan y gallai gohirio tan fis Medi achosi cymhlethdodau oherwydd y rheol chwe mis.

PENDERFYNWYD:

Yn amodol ar y diwygiad, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

28. DATGAN CYSYLLTIAD

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr angen i benderfyniadau fod er budd y cyhoedd a phwysigrwydd barn y cyhoedd o ran bod â hyder yn y broses o wneud penderfyniadau, a oedd yn benodol berthnasol i'r prif fater dan sylw, sef Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w archwilio gan y cyhoedd, gan ei fod yn cynnwys nifer fawr o fudd-ddeiliaid. Cyn y cyfarfod, roedd cyngor ysgrifenedig

clir wedi'i ddarparu i'r holl Aelodau i'w helpu i ystyried a oedd ganddynt gysylltiad a oedd yn rhagfarnu os oedd y mater yn effeithio ar eu lles a'u sefyllfa ariannol nhw – neu rai oedd yn agos atynt. Roedd hyn yn berthnasol i safleoedd posib' yn y CDLI yn ogystal ag i'r rhai a oedd wedi'u gwrthod ac y gallent gael eu hailgyflwyno yn nes ymlaen. Er bod Aelodau a oedd wedi lloŷio o blaid neu yn erbyn cynnwys safle posib' wedi'u cynghori i ddatgan cysylltiad personol a oedd yn rhagfarnu, roedd yr eithriad o fewn y Cod Ymddygiad yn golygu nad oedd ond angen i Aelodau awdurdod arall (fel Cyngor Tref a Chymuned) a oedd wedi gwrthwynebu safle ddatgan cysylltiad personol. Nid oedd bod yn aelod o gorff mewnol fel Grŵp y Strategaeth Gynllunio'n cyfrif fel cysylltiad a oedd yn rhagfarnu.

Dyweddodd y Prif Swyddog y byddai Aelodau sy'n datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu'n cael gwahoddiad i ddod i sesiwn ar wahân i drafod cyfleoedd iddynt gynrychioli eu cymunedau yn rhan o'r broses ymgynghori.

Datganodd yr Aelodau canlynol gysylltiad personol a oedd yn rhagfarnu a byddent yn gadael y Siambr cyn trafod yr eitem:

- Y Cynghorydd Bob Connah - perthyn i ddeiliad tir yn y CDLI.
- Y Cynghorwyr David a Gladys Healey - ar ôl gwrthwynebu i safle yn y CDLI.
- Y Cynghorydd Joe Johnson - cydberchennog tir yn y CDLI.
- Y Cynghorydd Ralph Small - eiddo'n edrych dros un o'r safleoedd posib'.
- Y Cynghorydd Andy Williams - cartref a busnes yn agos at safle posib'.

Datganodd yr Aelodau canlynol gysylltiad personol:

- Y Cynghorydd Christine Jones - ar ôl cefnogi datblygiad Porth y Gogledd.
- Y Cynghorwyr Paul Cunningham, Vicky Perfect ac Ian Roberts - Aelodau Cyngor Tref y Fflint a oedd wedi gwrthwynebu i safle posib'.

29. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Roedd Cyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi eu dosbarthu i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod. Tynnodd sylw at nifer o ddigwyddiadau a diolchodd i'r rhai a fu yng Ngwasanaeth Dinesig Sir y Fflint yn Eglwys Santes Eurgain a Sant Pedr, Llaneanrain.

30. DEISEBAU

Dim.

31. **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR Y FFLINT I'W ARCHWILIO GAN Y CYHOEDD (2015-2030)**

Ar ôl datgan cysylltiad personol a oedd yn rhagfarnu ynghynt, gadawodd y Cyngorwyr Bob Connah, David Healey, Gladys Healey, Joe Johnson, Ralph Small ac Andy Williams y Siambr cyn cychwyn trafod yr eitem hon.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i geisio cymeradwyaeth i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) i'w archwilio gan y cyhoedd ar gyfer y cyfnod 2015-2030 a oedd i gael ei gyflwyno i'r cyhoedd i ymgynghori arno rhwng 30 Medi ac 11 Tachwedd 2019, fel roedd y Cabinet wedi'i argymhell. Roedd hon yn garreg filltir allweddol i alluogi i'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill wneud sylwadau ar y Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd yn rhan o'r amserlen i'r Cyngor gyflawni ei ddyletsydd statudol i fabwysiadu CDLI terfynol.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Strategaeth gyflwyniad manwl yn trafod y canlynol:

- Beth yw'r CDLI
- Amserlen y CDLI
- Y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd
- Beth mae'r Cynllun yn ei gynrychioli
- Dogfennau ategol
- Heriau wrth barhau
- Ffocws cyson ar gyfer Grŵp y Strategaeth Gynllunio
- Pwrpas yr ymgynghoriad cyhoeddus
- Materion a fyddai'n debygol o fod yn rhai dadleuol
- Cynnydd tai a dyraniadau
- Sut rydym wedi dewis safleoedd
- Dyraniadau tai'r CDLI
- Darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr
- Darparu isadeiledd
- Profion cadernid
- Cymeradwyo'r CDLI i'w archwilio i ymgynghori arno
- Pwysigrwydd cymeradwyo'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd
- Beth sy'n digwydd ar ôl i'r cyhoedd ei archwilio

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Strategaeth bod hyn yn ganlyniad gwaith sylweddol a wnaed i ddatblygu Cynllun a oedd yn addas i'r diben, yn gadarn ac yn gwneud y mwyaf o'r strategaeth dwf gan gael yr effaith leiaf bosib' ar gymunedau. Canmolodd y gwaith cadarnhaol a fu yng Ngrŵp y Strategaeth Gynllunio ar y mater cymhleth hwn a dywedodd bod ymagwedd y Cyngor at ddarparu tai wedi helpu i ategu ei sefyllfa ynghlwm â'r CDLI.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r Rheolwr Gwasanaeth a'i dîm am eu gwaith a chanmolodd Aelodau Grŵp y Strategaeth Gynllunio a gadeiriwyd gan y Cyngorydd Bithell a gan y Cyngorydd Attridge cyn hynny.

Yn ystod y drafodaeth a fu wedyn, diolchodd nifer o'r Aelodau i'r tîm o swyddogion am eu proffesiynoldeb a'u diwydrwydd. Soniodd Aelodau o Grŵp y

Strategaeth Gynllunio am effeithiolrwydd y Grŵp wrth wneud penderfyniadau, a diolchwyd iddynt hwythau hefyd am eu cyfraniadau at y broses.

Fel Cadeirydd Grŵp y Strategaeth Gynllunio, diolchodd y Cynghorydd Bithell i'r tîm o swyddogion am eu gwaith cynhwysfawr ar y Cynllun ac hefyd i gyd-aelodau ar Grŵp trawsbleidiol y Strategaeth Gynllunio. Wrth bwysleisio pwysigrwydd parhau i wneud cynnydd ar yr amserlen, dywedodd bod nifer o'r safleoedd posib' eisoes yn rhai cyhoeddus, wedi'u haddasu gan fân newidiadau a wnaed i ffiniau'r Rhwystr Glas ac aneddiadau. Nododd ganlyniad yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy a oedd i'w adrodd yn ôl i'r Cyngor fis Medi cyn dechrau'r broses ymgynghori gyhoeddus a'r cyfleoedd i Aelodau wneud sylwadau penodol yn nes ymlaen yn y broses fel yr eglurwyd gan y swyddogion.

Fel Is-gadeirydd Grŵp y Strategaeth Gynllunio, eiliodd y Cynghorydd Peers y cynnig nad oedd yn gwahardd sylwadau gan Aelodau yn y cam ymgynghori. Cyfeiriodd at effaith newidiadau hwyr i ganllawiau cynllunio cenedlaethol, yr angen i ddeall ymarferoldeb a'i effaith ar y cyflenwad o dai, a phwysigrwydd darparu cysylltiadau â phrif drefi, sy'n cynnwys cludiant cyhoeddus i allu cyrraedd cymunedau ar draws Sir y Fflint. Rhoddodd drosolwg bras o'r gwaith a wnaed gan Grŵp y Strategaeth Gynllunio a chroesawodd y gefnogaeth a oedd ar gael i bob un a ddymunai fynegi pryder yn y broses ymgynghori.

Er bod y Cynghorydd Ian Roberts yn cydnabod y gallai Aelodau unigol fod â phryderon penodol, fe'u hatgoffodd mai'r pwrpas ar y cam hwn oedd cymeradwyo'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd i gael ei gyhoeddi i'r cyhoedd ymgynghori arno.

Siaradodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin o'i blaid, ond rhannodd bryderon ynghylch twf cyflogaeth a chysylltiadau cludiant. Mewn ymateb i gwestiwn ar ddarpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth bod y safle ar Bagillt Road yn Nhreffynnon – yr oedd caniatâd cynllunio dros dro ar ei gyfer ar hyn o bryd – yn cyfrannu at gyfanswm yr angen a nodwyd dros y cyfnod.

Bu i'r Cynghorydd Richard Jones ailadrodd ei bryderon ynghylch diffyg Cynllun Sir y Fflint ar gyfer y Sir gyfan gan y gallai hwn, yn hytrach na Chynllun cyfredol Glannau Dyfrdwy, fod wedi rhoi gwell sylfaen i'r CDLI. Wrth bwysleisio pwysigrwydd isadeiledd addas, roedd ganddo bryderon nad oedd y Bwrdd Iechyd Lleol, o bosib', yn deall effaith y CDLI yn iawn. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth bod y CDLI yn cydymffurfio a'r profion cadernid allweddol, gofynnol yn cynnwys yr un i ystyried yr holl strategaethau cyfredol fel ei sail dystiolaeth. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd bod y Cyngor yn ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol ar ddarpariaeth gofal iechyd i ategu'r strategaeth dwf.

Croesawai'r Cynghorydd Dunbar y cyfle am gyfarfodydd briffio gyda chynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned fis Medi.

Gan siarad o blaid y Cynllun, nododd y Cynghorydd Paul Shotton y ddau safle strategol a oedd yn darparu 20% o'r holl ofynion tai.

Yn dilyn sylwadau blaenorol, mynegodd y Cynghorydd Ellis hefyd bryderon ynghylch darpariaeth gofal iechyd i ategu'r CDLI, yn enwedig am

feddygon teulu lleol ac ysbytai ardal. Mewn ymateb, eglurwyd bod gwaith ar fynd i gael sicrwydd ynghylch capasiti a chynaliadwyedd darpariaeth meddygon teulu ar hyn o bryd a bod y cynllun isadeiledd i ategu'r CDLI yn ddogfen fyw a fyddai hefyd yn helpu'r Bwrdd Iechyd i gynllunio gwasanaeth.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Tudor Jones, cytunodd y swyddogion i ddiwygio'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd i gydnabod Caerwys fel tref yn hytrach na phentref drwy'r ddogfen.

Er bod y CDLI yn cyfeirio at ddogfennau dan eu teitlau cyfredol, soniodd y Cynghorydd Carolyn Thomas am y Cabinet yn mabwysiadu ffocws ehangach i gyfeirio at Gynllun Glannau Dyfrdwy fel Cynllun Sir y Fflint, gan wneud rhywbeth tebyg ynghlwm â 'choridor Glannau Dyfrdwy', i gydnabod yr effaith ar ardaloedd eraill. Dywedodd hefyd y byddai Cynllun Isadeiledd Sir y Fflint yn cael ei rannu yn nes ymlaen.

I gloi, diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau am eu sylwadau a'u cydnabyddiaeth i'r gwaith a wnaed gan y tîm o swyddogion. Wrth iddo ddiolch, canmolodd y Rheolwr Gwasanaeth am ei ymroddiad wrth ddatblygu'r CDLI.

Cyn parhau i bleidleisio, eglurodd y Cadeirydd ei bod yn bwriadu atal ei phleidlais oherwydd sensitifrwydd lleol ynghlwm ag un elfen o'r CDLI.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhellion. Gofynnodd y Cynghorydd Heesom i'r cofnodion nodi ei fod wedi ymatal.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod yr Aelodau'n cymeradwyo cynnwys Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w archwilio gan y cyhoedd 2015-2030 i gael ei gyhoeddi er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno; a
- (b) Bod yr Aelodau'n awdurdodi'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Economi a'r Amgylchedd) i wneud unrhyw fân newidiadau o ran geiriad, gramadeg, golygu a chartograffeg i'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd a allai ddod i'r amlwg neu fod yn angenrheidiol cyn ymgynghori'n ffurfiol arno i sicrhau cysondeb â sail dystiolaeth gyfredol y CDLI ac i gynorthwyo wrth gyflwyno'r Cynllun yn derfynol.

32. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 3.40pm)

.....
Y Cadeirydd